Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
**Bryn Celyn Road**
**Pentwyn**
**Caerdydd**
**CF23 7ED**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant

Ysgol ffydd ym Mhentwyn, Caerdydd yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant. Mae 239 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng tair ac un ar ddeg oed, gan gynnwys 30 o ddisgyblion meithrin. Mae wyth dosbarth, yn cynnwys y dosbarth meithrin.

Mae tua 29% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yn yr awdurdod lleol ac yng Nghymru.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 21% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru (21%). Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw tua 14% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol ac mae tua 4% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2018. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2013.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yn ysgol ag iddi gymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae gofyniad cyfreithiol ar y corff llywodraethol i drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda iawn ac maent yn gwrtais, yn ofalgar ac yn barchus tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu, sy'n gryfder yn yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae'r addysgu yn effeithiol, mae gwersi'n ysgogol ac mae disgyblion yn ymroi yn dda i dasgau. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni'n dda.

Mewn dosbarthiadau, mae bron pob un o'r disgyblion yn talu sylw i'w hathrawon ac yn awyddus i wneud yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol i safon uchel. Mae'r pennaeth yn hyrwyddo gweledigaeth glir ac yn darparu arweinyddiaeth gref i ysgol sy'n gwella. Caiff gymorth gwerthfawr gan uwch arweinwyr a chorff llywodraethol yr ysgol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso yn llwyddo i nodi cryfderau priodol a meysydd priodol i'w datblygu. Mae'r prosesau ynglŷn â gwella'r ysgol, fel cyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol, yn effeithiol ac yn sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion. Mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau sylweddol mewn cyfnod byr.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol

A2 Gwella medrau TGCh disgyblion

A3 Datblygu'r her i ddisgyblion mwy abl a thalentog ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol â medrau sy'n debyg i'r cyfartaledd ar gyfer eu hoedran. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da dros gyfnod. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus. Yn y cyfnod sylfaen, gall bron pob un o'r disgyblion ddilyn cyfarwyddiadau, rhannu gwybodaeth syml ac esbonio eu gwaith. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac yn ymateb yn synhwyrol i gwestiynau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi eu syniadau'n glir ac yn mwynhau siarad ag ymwelwyr am eu gwaith. Maent yn cyfathrebu'n frwdfrydig gyda'u cyfoedion. Er enghraifft, yn y dosbarth Derbyn, mae disgyblion yn chwarae ysgol yn yr ardal chwarae rôl ac yn dilyn cyfarwyddiadau gan y plentyn sy'n chwarae rhan yr athro. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n bwrpasol ac yn gwneud cyfraniadau diddorol at drafodaeth ddosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol. Er enghraifft, yn y dosbarth Meithrin, mae disgyblion yn awyddus i ddangos eu 'gardd ddarllen' i ymwelwyr a siarad am eu hoff lyfrau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda dealltwriaeth ac yn defnyddio eu gwybodaeth am seiniau yn briodol i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd. Mae llawer ohonynt yn mwynhau darllen ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei ddarllen mewn amrywiaeth o destunau. Maent yn ennill gwybodaeth ddefnyddiol am nodweddion gwahanol fathau o lyfrau. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn mwynhau darllen am dylluanod bach, ac o ganlyniad, maent yn siarad yn frwdfrydig am y cymeriadau a'r plot. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn hyfedr. Maent yn mwynhau trafod llyfrau ac yn gwneud rhagfynegiadau synhwyrol am yr hyn a allai ddigwydd nesaf. Defnyddiant eu medrau darllen yn bwrpasol i gasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau a mynegi barn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol, ac yn cymhwyso'r rhain yn dda ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion iau yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd gwerthfawr o ran datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn brawddegau gan ddefnyddio atalnodi cywir, ac yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o wahanol *genres* ac yn ysgrifennu mewn ystod addas o ffurfiau. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, defnyddiant eu dealltwriaeth o nodweddion adroddiad papur newydd i greu eu hadroddiadau dychmygus eu hunain am eu gwyliau haf.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at y Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio ymadroddion syml a geirfa sylfaenol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn sgyrsiau am eu teimladau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynau syml ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi Cymraeg dynodedig. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn

defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd i ofyn ac ateb cwestiynau. Maent yn darllen testunau syml yn briodol ac yn deall yr hyn y maent wedi'i ddarllen.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn dda ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion ar ddiwedd y cyfnod sylfaen yn gwybod rhifau i 100, o leiaf, ac yn cymharu a rhoi rhifau dau ddigid yn eu trefn yn effeithiol. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddweud yr amser ar gloc analog yn gywir. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn esbonio faint o funudau sydd rhwng deg munud wedi dau a chwarter wedi dau trwy gyfrif ymlaen fesul 5.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn meddu ar fedrau rhifedd datblygedig ac maent yn cymhwyso'r rhain yn hyderus wrth ddatrys problemau. Er enghraifft, maent yn trosi mesuriadau o unedau safonol imperial i unedau safonol metrig ar gyfer rysait o 1940 i wneud cacennau. Mae llawer o ddisgyblion yn esbonio eu meddwl mathemategol yn gywir wrth wneud cyfrifiadau ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cynllunio'r daith a wnaeth faciwîs o Lundain i Gymru ac yn darganfod nifer y bysiau a'r trenau roedd eu hangen.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau boddhaol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Fodd bynnag, defnyddiant y rhain yn anghyson i gefnogi eu dysgu mewn pynciau eraill. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i chwarae gemau llythrennedd a rhifedd ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn rhaglennu teganau robotaidd syml yn gymwys. Yng nghfynod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio ystod ddigonol o raglenni a chymwysiadau yn addas i wella eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn creu hysbyseb ddigidol i ddarbwyllo cwsmeriaid i brynu eu craceri Nadolig ecogyfeillgar. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n datblygu medrau addas wrth ddefnyddio cronfeydd data a thaenlenni.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt bryder ac mae llawer ohonynt yn siarad yn falch am y cyfleoedd a gynigir gan eu hysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, dewisodd llawer o ddisgyblion brynu ffrwythau o siop ffrwythau'r Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol ac yn manteisio ar ystod y clybiau allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol, fel rygbi a phêl-rwyd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a pharchus at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn dal drysau ar agor i ymwelwyr, ac yn eu cyfarch yn gwrtais wrth gerdded o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn symud o gwmpas yr ysgol yn bwyllog ac yn drefnus ac yn siarad yn hyderus ag oedolion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac ar y maes chwarae.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau ac maent yn datblygu medrau arwain yn llwyddiannus. Caiff pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, gyfle i gymryd rhan mewn grŵp llais y disgybl. Mae llawer o

ddisgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â sut gallant fod yn rhan o benderfyniadau'n gysylltiedig â gwella agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn ymgymryd â rôl weithredol mewn codi arian ar gyfer elusennau amrywiol, fel Plant mewn Angen. Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd, oedolion ac ymwelwyr, gan ddangos hyder a gwydnwch. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae llawer o'r grwpiau hyn ac nid ydynt wedi dangos effaith werth chweil ar fywyd yr ysgol eto.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth sy'n datblygu o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang moesegol a gwybodus, trwy weithio tuag at gam arian 'Ysgolion sy'n Parchu Hawliau'. Mae bron pob un o'r disgyblion yn parchu eu hawliau eu hunain, a hawliau pobl eraill. Mae ganddynt synnwyr cryf o degwch a chydraddoldeb i bawb.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion berthnasoedd gwaith cadarnhaol gydag oedolion, sy'n gwella eu synnwyr o les yn effeithiol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn gweithio'n galed. Maent yn cydweithio'n dda wrth weithio mewn parau a grwpiau. Maent yn ystyriol wrth wrando ar safbwyntiau disgyblion eraill ac yn rhannu eu meddyliau a'u syniadau yn rhwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad pan fyddant yn wynebu heriau. Er enghraifft, mae disgyblion yn y grŵp anogaeth yn chwarae gemau i ddatblygu medrau echddygol manwl, y mae angen gwydnwch a medrau datrys problemau ar eu cyfer.

Mae disgyblion yn elwa ar drefniadau'r ysgol ar gyfer cefnogi eu lles emosiynol trwy Grŵp Anogaeth ac ymyriadau eraill. O ganlyniad i'r ymyriadau hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn y grwpiau hyn wedi magu hunan-barch a hyder.

Mae cyfraddau presenoldeb yn dda dros gyfnod ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i gymhellion amrywiol yr ysgol i hyrwyddo presenoldeb da. Mae bron pob un o'r disgyblion yn brydlon.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae staff yn gweithio'n dda i sicrhau perthnasoedd gwaith cryf gyda disgyblion. Maent yn annog parch a chwrteisi ar y ddwy ochr, ac mae hyn yn arwain at yr ethos cefnogol sydd mor amlwg yn yr ystafelloedd dosbarth. Mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ym mhob dosbarth, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn barchus a sylwgar iawn, ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda yn eu dysgu. Mae llawer o athrawon yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol lle mae disgyblion yn teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau a rhannu syniadau. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod cyflymdra da i sesiynau dysgu. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw athrawon yn rhoi digon o her i leiafrif o ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y disgyblion mwy abl.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu'r amcan dysgu gyda disgyblion ar ddechrau'r wers, ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir sy'n eu galluogi i ymgymryd â'u gwaith yn hyderus. Maent yn cynllunio tasgau a gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus, ac yn gwneud defnydd effeithiol o sesiynau llawn i werthuso dysgu disgyblion. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn cynorthwyo disgyblion yn dda iawn ac yn arddangos mentrau proffesiynol medrus i alluogi'r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol i weithio'n effeithiol.

Mae athrawon yn defnyddio technegau holi yn bwrpasol i helpu disgyblion i ddeall syniadau newydd a datblygu eu gwybodaeth a'u medrau. Mae oedolion yn defnyddio canmoliaeth ac adborth defnyddiol parhaus i roi gwybod i ddisgyblion beth maent wedi'i wneud yn dda a'u helpu i wella eu gwaith. Mae sylwadau addysgiadol yn dweud wrth ddisgyblion am y medrau y mae angen iddynt eu hymarfer ymhellach. Mae cyfleoedd i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain, a pherfformiad disgyblion eraill, yn datblygu'n briodol.

Mae'r ysgol yn myfyrio ar effeithiolrwydd y cwricwlwm yn rheolaidd ac yn dechrau rhoi ystyriaeth briodol i ddatblygiadau tuag at y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae llawer o ystafelloedd dosbarth yn lleoedd ysgogol ac mae llawer o athrawon yn dyfeisio gweithgareddau cyffrous i ennyn diddordeb disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn gwylio fideo Nadolig fel symbyliad i ysgrifennu eu hysbysebion eu hunain. Mae arfer y cyfnod sylfaen wedi'i sefydlu'n briodol ac fe gaiff disgyblion fynediad hawdd at ardaloedd allanol i ymgymryd â dysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae athrawon yn tueddu i gyfarwyddo dysgu disgyblion yn ormodol. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn gwneud dewisiadau ar gyfer disgyblion am yr adnoddau y maent yn eu defnyddio a sut dylent eu defnyddio. Mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud dewisiadau ar gyfer y disgyblion ynglŷn â sut a phryd y dylent gwblhau'r 'tasgau'. O ganlyniad, nid yw annibyniaeth disgyblion yn eu dysgu wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn trefnu darpariaeth briodol i ddisgyblion ymarfer eu medrau ysgrifennu mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft trwy holi da, er mwyn i ddisgyblion esbonio eu gwybodaeth am ddogni yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn llai datblygedig.

Yn ddiweddar, mae athrawon wedi dechrau rhoi cwricwlwm newydd i Gymru ar waith. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'r Gymraeg gyda disgyblion yn rheolaidd y tu allan i wersi Cymraeg, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn fwy hyderus yn ymateb i sbardunau a chwestiynau syml. Caiff disgyblion gyfleoedd effeithiol, ar draws y cwricwlwm, i ddysgu am hanes, diwylliant a daearyddiaeth Cymru. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4 ar ôl ymweld â Llancaiach Fawr, mae disgyblion yn esbonio gwahanol alwedigaethau'r cymeriadau yn y maenordy. Mae disgyblion hŷn yn mwynhau cyrsiau preswyl ac mae'r rhain yn helpu ymestyn eu medrau cymdeithasol yn dda.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar ac anogol lle caiff yr holl disgyblion eu gwerthfawrogi. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn nodwedd gref. Mae trefniant yr ysgol ar gyfer olrhain a monitro dysgu disgyblion yn llwyddiannus, ac mae hyn yn golygu y gellir nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar. Mae aelodau staff gwybodus yn cyflwyno ystod werthfawr o raglenni effeithiol, fel ymyriadau â darllen a mathemateg, i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer lles disgyblion trwy raglen cymorth llythrennedd emosiynol a chlybiau anogaeth. Mae cynllun addysg unigol gan bob disgybl ag anghenion addysgol arbennig, sy'n

cynnwys targedau penodol y mae athrawon yn eu hadolygu'n rheolaidd gyda rhieni. Mae cysylltiadau da ag ystod o asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth lleferydd ac iaith, yn darparu cymorth arbenigol buddiol pan fydd angen.

Trwy gyfathrebu effeithiol, mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd eu plant. Caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol am y cwricwlwm, testunau ystafell ddosbarth a buddion presenoldeb rheolaidd disgyblion, ac mae hyn yn eu helpu i gefnogi dysgu eu plentyn gartref yn briodol. O ganlyniad, mae rhieni yn ymwybodol o flaenoriaethau'r ysgol a digwyddiadau presennol. Mae rhaglenni penodol ar gyfer rhieni sydd wedi eu targedu at wella cyflawniad disgyblion yn cynnwys gweithdai ffoneg, gweithdai mathemateg a chaffi darllen ar gyfer teuluoedd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad medrau academaidd, personol a chymdeithasol disgyblion. Ceir strategaethau effeithiol i geisio safbwyntiau rhieni trwy'r Cyngor Rhieni, sydd wedi arwain at gyfathrebu gwell trwy negeseuon e-bost dosbarth, caffael adnoddau maes chwarae a chyflwyno cyfeillion maes chwarae. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd eu plentyn ac yn darparu targedau addas ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n rhoi llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fod yn ddinasyddion gweithredol ac ymgymryd â chyfrifoldebau. Er enghraifft, mae'r cyngor eco yn annog ailgylchu ac mae disgyblion yn gweithredu fel arweinwyr digidol i hyrwyddo diogelwch ar-lein. Mae cyfeillion maes chwarae yn llwyddo i wella cyfleoedd i ddisgyblion wneud ymarfer corff yn ystod amseroedd egwyl, ac yn hyrwyddo buddion ffordd iach o fyw. Mae'r cyngor ysgol yn effeithiol o ran gwneud penderfyniadau a hyrwyddo cysylltiadau â'r gymuned, er enghraifft trwy ddigwyddiadau codi arian a boreau coffi i deuluoedd gyfarfod a chymryd rhan ym mywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn integreiddio addysg bersonol a chymdeithasol yn llwyddiannus yn y cwricwlwm ac ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u gwybodaeth ddiwylliannol yn effeithiol trwy ymweliadau â Bae Caerdydd ac amgueddfa Sain Ffagan, er enghraifft.

Mae staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at wahaniaeth ac amrywiaeth yn dda. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ystod gwasanaethau a gweithgareddau ystafell ddosbarth, sy'n eu hannog i ddeall a pharchu gwahaniaethau. Mae gan yr ysgol ymagwedd gadarnhaol at reoli ymddygiad disgyblion a sefydlu diwylliant o wrthfwlio.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol y mae disgyblion yn eu mynychu'n frwdfrydig. Er enghraifft, mae disgyblion yn dewis mynychu clybiau iaith, yn cynnwys Ffrangeg ac Eidaleg, neu i ddatblygu medrau mewn jwdo, canu a dawnsio gwledig. Mae'r rhain yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu diddordeb mewn diwylliannau eraill a gwella eu medrau corfforol a chreadigol yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion mewn gwersi, trwy weithgareddau fel chwarae rôl.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol effeithiol iawn gyda ffocws ar godi safonau a gwella darpariaeth. Mae'n cyfleu ei gweledigaeth yn sensitif, ac yn y cyfnod byr y bu'n ymgymryd â'r swydd, mae wedi dangos lefel uchel o ymroddiad i annog newid buddiol yn yr ysgol. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth newydd yn hyrwyddo ymddygiadau a gwerthoedd sy'n cyfrannu at ethos ysgol cadarnhaol lle mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r pennaeth yn dosbarthu cyfrifoldebau staff yn bwrpasol ac mae hyn yn hynod effeithiol o ran datblygu medrau arwain staff mewn llawer o feysydd o fywyd yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw penodi uwch arweinydd i oruchwylio diwygio'r cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o staff â chyfrifoldebau arwain penodol yn cyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff a chyfarfodydd sector yn dda fel llwyfan i roi adborth a hysbysu aelodau staff eraill am ddatblygiadau yn eu maes cyfrifoldeb penodol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod staff yn deall mentrau newydd a'u rhan yn eu cyflwyno. Mae'r ysgol yn rhan o rwydwaith o ysgolion, sy'n rhoi cyfle i staff weithio'n rheolaidd gyda chydweithwyr mewn gwahanol leoliadau i ddathlu cyflawniadau, amlygu arfer dda a nodi meysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae staff yn gweithio gydag ysgolion y clwstwr i ddatblygu egwyddorion addysgegol a gwella asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Mae rheoli perfformiad yn broses werth chweil a thrylwyr sy'n galluogi staff ac arweinwyr i gymryd rhan mewn trafodaethau proffesiynol buddiol. Un o ganlyniadau uniongyrchol hyn yw bod uwch arweinwyr bellach yn arwain ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i weithio tuag at ei nodau yn gyflymach ac yn fwy effeithiol.

Mae hunanwerthuso yn hynod effeithiol o ran cyfrannu at wella safonau. Mae'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae angen ei wella trwy ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r canfyddiadau hyn yn bwydo'n uniongyrchol i flaenoriaethau gwella'r ysgol. Er enghraifft, erbyn hyn, mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth gliriach o nodweddion addysgu a dysgu da. Defnyddiant ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol, yn cynnwys dadansoddi data, arsylwadau gwersi, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar waith disgyblion i gefnogi eu canfyddiadau. Mae gallu'r ysgol i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliant wedi codi safonau mewn llawer o feysydd. Er enghraifft, mae ffocws ar ddatblygu llythrennedd disgyblion wedi arwain at welliannau yn eu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu ac wedi arwain at ddeilliannau gwell i'r rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn effeithiol ac yn rhoi her briodol i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn deall cyd-destun yr ysgol, ei chryfderau a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae uwch arweinwyr a llawer o athrawon yn hysbysu llywodraethwyr yn dda trwy roi cyflwyniadau yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol ar safonau a datblygu'r cwricwlwm. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn defnyddio ei hadnoddau'n effeithlon. Gwna arweinwyr ddefnydd da o brofiad ac arbenigedd staff addysgu a staff cymorth. Mae ad-drefnu sylweddol yn yr ysgol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau ar draws yr ysgol. Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da yn cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm yn dda, er bod yr adnoddau ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn dyrannu'r grant datblygu disgyblion ar gyfer ystod addas o weithgareddau, er enghraifft cyflogi cynorthwywyr addysgu i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle y bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2020